



RHANNWCH Y BWLETIN Â HOLL STAFF YR YSGOL A'U HANNOG I DANYSGRIFIO.

**BYDD Y BWLETIN NESAF YN CAEL EI GYHOEDDI AR 10 EBRILL 2025**

Bwletin GwE

**CYDWEITHIO
DYSGU
LLWYDDO****CYNNIG DYSGU PROFFESIYNOL GwE** **CLICIWCH YMA**

NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

Sgiliau Disgyblaethol – Ffocws MDaPh: Ysgolion Uwchradd

CYD-WEITHWYR UWCHRADD: Angen cymorth i adnabod cyfleoedd trawsgwricwlaidd cyfoethog yn eich Maes Dysgu a Phrofiad? [Manylion llawn a chofrestru ar gael yma.](#)

Newyddlen GwE Digidol

Am y newyddion diweddaraf gan GwE Digidol, [cliciwch yma.](#)



LLWYBR DYSGU I GYMORTHYDDION ADDYSGU / LIDGA

Cyfle cyffrous i Gynorthwywyr Addysgu newydd!

Mae'r Rhaglen Ymsefydlu i Gynorthwywyr Addysgu i unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd.

Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan ddigidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus iddyn nhw ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion sut i gofrestru, [cliciwch yma.](#)

PROSIECTAU YMCHWIL A GWERTHUSO

Cyhoeddiad newydd gan GwE ar y cyd â Phrifysgol Bangor

"AN EVALUATION OF SECONDARY SCHOOL STUDENTS' USE AND UNDERSTANDING OF LEARNING STRATEGIES TO STUDY AND REVISE FOR SCIENCE EXAMINATIONS"

Mae'n bleser gan GwE weld bod canlyniadau astudiaeth efo ysgolion uwchradd Gogledd Cymru – yn arfarnu defnydd myfyrwyr o strategaethau - wedi'u cyhoeddi yn ddiweddar yn y cyfnodolyn 'Education Sciences'. Dr Fatema Sultana o Brifysgol Bangor wnaeth y gwaith hwn, a hynny'n rhan o waith gyda GwE i wella'r defnydd sy'n cael ei wneud o waith ymchwil i lywio polisiau ac arferion. [Cliciwch yma i ddarllen mwy.](#)

Adroddiad am Effaith y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion yn Ysgolion GwE

Bellach mae adroddiad am effaith y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion yma yn ysgolion y rhanbarth wedi ei gyhoeddi gan ein cydweithwyr yn yr Education Development Trust. Defnyddiwch y linc isod i ddarllen am lwyddiant y rhaglen ar draws y Gogledd. [GwE - Education Development Trust](#)

**Schools
Partnership
Programme**

Bryn Eirias, Ffordd Abergele,
Bae Colwyn, LL29 8BY



0300 500 8087



[Canolfan Cefnogaeth GwE](#)



[@GwEGogleddCymru](#)



post@gwegogledd.cymru



www.gwegogledd.cymru



[Cynnig Proffesiynol GwE](#)



Bwletin GwE

 **Y GYMRAEG****Cyrsiau Sabothol Iaith Gymraeg****CWRS LEFEL MYNEDIAD I GYNORTHWYWR DOSBARTH MEWN YSGOLION CYNRADD CYFRWNG SAESNEG****Cwrs 5 wythnos wyneb yn wyneb yn y Ganolfan Iaith yn Llanelwly: 02/06/2025 – 04/07/2025** **DYFODOL BYD-EANG: IEITHOEDD RHYNGWLADOL****Newyddlen Ieithoedd Rhyngwladol GwE: [CYNRADD](#) | [UWCHRADD](#)** **SECTOR UWCHRADD****Cyfes gweminarau: A Taste of Languages: Hanesion Ffrangeg a Saesneg - Richard Tallaron, Power Language****DYSGU PROFFESIYNOL | 3 GWEMINAR x 1 AWR O HYD - 15:45–16:45 AR-LEIN A RHITHIOL | DYDDIADAU ISOD**

Cyfle i edrych ar gysylltiadau rhwng ieithoedd a gweithgareddau ymarferol i'w defnyddio yn y dosbarth. Bydd Richard Tallaron yn mynd â chi ar wibdaith dros 2000 o flynyddoedd i edrych ar rai o'r hanesion sydd wedi dod â Ffrangeg a Saesneg yn agos at ei gilydd. Bydd Richard yn sôn am ddylanwadau'r Celtaid, William y Concwerwr ac wrth gwrs franglais...

SESIWN 2: 1066 A THU HWNT - 09/04/2025**SESIWN 3: CHWEDL DWY DAFOD - 15/05/2025**

Anfonwch e-bost at sioned.harold@sewaleseas.org.uk i gofrestru ar y gweminarau. Bydd y dolenni 'Zoom' yn cael eu hanfon atoch yn nes at ddyddiad y sesiwn gyntaf.

 **CODI PROFFIL IEITHOEDD A PHROFIADAU DYSGU****Cystadleuaeth Fideo Cerddoriaeth Bop Ffrangeg Institut Français 2025**

Llwyfan chwareus a chreadigol i'ch myfyrwyr [7 i 18 oed] ddangos eu gwybodaeth am Ffrangeg.

Dysgwch fwy am y gystadleuaeth [yma](#). [Manylion yn Saesneg]. Cofrestrwch [yma](#) erbyn **16/03/2025**.

Institut Français

Ewch ati i gynnal diwrnod i ddathlu diwylliant ac iaith gyda'n pecyn diwrnod diwylliant, sydd am ddim! Dewch i ddarganfod adnoddau Ffrangeg, Sbaeneg, ac Almaeneg newydd i greu Diwrnod Diwylliant yn eich ysgol!

Manylion llawn [yma](#)

 **NEWYDDION CONSORTIA ADDYSG CYMRU**

[Cliciwch yma](#) i gael eich cyfeirio at wefan Consortia Addysg Cymru sy'n darparu gwybodaeth am ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol trawsranbarthol i holl staff Cymru.



NEWYDDION LLYWODRAETH CYMRU

Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth [CPCP]



MAE CEISIADAU CARFAN 2 YN FYW. DYDDIAD CAU: 16:00 AR 17 MAWRTH 2025

Croesewir ceisiadau gan uwch arweinwyr ysgolion o bob rhan o Gymru sy'n credu y gallant ddangos tystiolaeth o brofiad perthnasol i fodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth ffurfiol, ac y mae prifathrawiaeth yn gam nesaf realistig ar eu cyfer, er enghraifft, aelodau o uwch dimau arwain.

Mae croeso hefyd i'r rhai sydd â SAC wneud cais, sydd wedi magu profiad angenrheidiol i arwain ysgol drwy weithio mewn sefydliadau eraill yn y system addysg, e.e. awdurdodau lleol a phartneriaethau, Estyn.

Ar ôl cael cefnogaeth eich pennaeth neu'ch cyflogwr a'ch awdurdod lleol, mae angen i chi gwblhau'r ffurflen gais erbyn 16:00 ar 17 Mawrth 2025.

[Manylion llawn ar SUT I WNEUD CAIS yma.](#)

Ymgyrch Recriwtio Addysgu Cymru

[Is-raddedigion - Eisiau gyrfya sy'n cael dylanwad? Addysga yng Nghymru.](#)

[Ysyried Newid Gyrfya? Addysga yng Nghymru.](#)

[Cynorthwyydd Addysgu? Cer ymhellach drwy addysgu. Addysga yng Nghymru.](#)



GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL



Diweddariad gan CGA

[Dweud eich dweud ar y newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol](#)

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) wedi lansio ymgyngoriad ar ddrafft diwygiedig o'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol. Mae'r Cod yn ddogfen allweddol sy'n ei gwneud hi'n glir i gofrestrion CGA beth yw egwyddorion ymddygiad ac ymarfer proffesiynol da, y disgwylir i bawb gynnal i gadw fod wedi cofrestru. Ers ei gyflwyno, mae'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol wedi bod yn ganllaw clir i ymarferwyr, a'r cyhoedd, ar beth yw'r safonau hyn. Fel rhan o ofyniad deddfwriaethol CGA i adolygu'r Cod, mae'r rheoleiddiwr wedi gwneud mân newidiadau ac yn [croesawu adborth ar y newidiadau arfaethedig hyn.](#)



Prosiect Llais Yr Athro: CGM yn y Cwricwlwm i Gymru

Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru, mewn cydweithrediad â Chanolfan San Silyn Wrecsam, Prifysgol Bishop Grosseteste, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Cymorth Addysg Castell-nedd Port Talbot, ac Ysgol Uwchradd Llanisien, Caerdydd yn ceisio barn athrawon ynghylch eu dealltwriaeth o Werthoedd, Moeseg a Chrefydd a gofynion Dysgu Proffesiynol posibl. [DOLEN I'R AROLWG](#)



Diwrnod Dysgu Proffesiynol DARPL - Gogledd Cymru

26/03/2025 | 9:15-14:30 | COED PELLA, BAE COLWYN

Bydd y diwrnod dysgu proffesiynol hwn yn cael ei arwain gan dîm Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth [DARPL]. [Manylion ar gael yma.](#)



Wythnos Croeso i Dy Bleidlais 2025

Mae Wythnos Croeso i'ch Pleidlais yn rhoi amser yn y flwyddyn i athrawon ac addysgwyr ddechrau'r sgwrs gyda'u pobl ifanc. Am fwy o wybodaeth am Wythnos Croeso i'ch Pleidlais [10-16 Mawrth 2025] gweler [Wythnos Croeso i Dy Bleidlais 2025 | Electoral Commission](#)



Cystadleuaeth Y Criw Mentrus i Ysgolion Cynradd



Crynodeb Cynradd gan e-sgol

